21 Mai 2020

Annwyl gydweithwyr,

Cyfarfu Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Caerdydd yr wythnos diwethaf i drafod ymateb parhaus y ddinas i argyfwng Covid-19, i gydnabod ymdrechion gweithwyr allweddol ledled y ddinas ac i ddechrau ystyried sut y gall Caerdydd ymgodi o'r cyfyngiadau, ac yn y pen draw o'r argyfwng, yn ddinas gryfach, decach, wyrddach.

Drwy weithio gyda'n gilydd, rydym wedi cyflawni llawer iawn ers i argyfwng Covid-19 godi ei ben yn gynharach eleni. Ysbyty Dragon Heart yn barod ac yn weithredol cyn pen wythnosau, gwestai wedi'u haddasu at y diben o sicrhau nad oes angen i neb gysgu ar ein strydoedd, trigolion mwyaf bregus ein dinas a phlant ysgol yn cael eu cefnogi mewn sawl ffordd a dull un tîm ar waith i gadw ein holl gymunedau a mannau cyhoeddus yn ddiogel. Mae graddfa a chyflymder y newid wedi bod yn syfrdanol.

Cytunasom y bydd ein llwyddiant yng ngham nesaf yr argyfwng hwn yn dibynnu, yn y bôn, ar barhau i weithio mewn partneriaeth ar y lefel hon. Byddwn yn parhau i weithio fel un tîm i roi gofal i bawb y mae ei angen arnynt, ac i gefnogi ac amlygu'r rhai sy'n cynnig y cymorth hwnnw; i greu strydoedd diogel, canolfannau ardal a llwybrau i'r ysgol, i'r gwaith ac i'r siopau, a sefydlu'r seilwaith lleol a fydd yn ein helpu i atal lledaeniad y feirws yma yng Nghaerdydd. A chyda'n gilydd, byddwn yn helpu i ailgychwyn yr economi a bywyd y ddinas ac arwain Caerdydd tuag at adferiad.

Fodd bynnag, wrth i ni nawr droi ein golygon at yr adferiad hwnnw, gyda'r dystiolaeth yn dangos ein bod ni yng Nghaerdydd wedi pasio'r uchafbwynt cyntaf, gyda heintiau a marwolaethau yn cwympo, gwyddom fod y risg yn dal yn uchel. Ac felly mae ein neges yng Nghaerdydd yn glir o hyd: arhoswch gartref, amddiffynnwch y GIG ac achubwch fywydau.

Yn olaf, i'r holl weision cyhoeddus a gweithwyr allweddol, ar ran Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Caerdydd: diolch unwaith eto am eich ymroddiad i gadw ein gwasanaethau hanfodol yn rhedeg a phobl ein dinas yn ddiogel.

Yn gywir,

Y Cynghorydd Huw Thomas

Chadeirydd, Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Caerdydd a Arweinydd Cyngor Dinas Caerdydd

Charles Janczewski

Is-Gadeirydd, Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Caerdydd a Cadeirydd Dros Dro Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro